Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

WYNN, PRYSE, a CORBET (TEULUOEDD), Ynysmaengwyn, a GWYN a NANNEY (TEULUOEDD), Dolau Gwyn, Sir Feirionnydd.

Dyma deulu arall yn hawlio disgyn Osbwrn Wyddel. Bu i Kenric (Cynwrig), mab Osbwrn, fab o'r enw LLEWELYN, a briododdNest, ferch ac aeres Gruffydd ab Adda, Dôl Goch ac Ynysmaengwyn. Disgynyddion Llewelyn a Nest yn y llinell uniongyrchol (sef y rheini y mae a fynno'r erthygl hon â hwy) oedd GRUFFYDD, EINION (a briododdTanglwst, ferch Rhydderch ap Ieuan Llwyd , Gogerddan, Ceredigion), IORWERTH (yn fyw yn 1425), a JENKIN AB IORWERTH. Yr oedd Jenkin ab Iorwerth yn ' ffermiwr ' (h.y. prydleswr ar ran y Goron) melinau Cyfyng a Chaethle a fferri Aberdyfi yn y 36 flwydd o deyrnasiad y brenin Harri VI.

Bu HOWEL AP JENKIN AB IORWERTH farw o'r pla yn 1494. Dilynwyd ef gan ei fab, HUMPHREY (bu farw 1545); ei fam ef oedd Mary, ferch Syr Roger Kynaston, cwnstabl castell Harlech. Gwraig Humphrey oedd Annes, ferch Syr Richard Herbert, Trefaldwyn, a'i aer JOHN WYNN AB HUMPHREY, a briododdferch Rhys Vaughan, Corsygedol, ac a ddilynwyd gan ei fab HUMPHREY WYNN (yn fyw yn 1571). Anfonwyd i Humphrey Wynn gywydd gan Siôn Phylip yn gofyn iddo roddi telyn rawn i Siôn ap Richard, Pennal. Priododd Humphrey â Jane (Hughes, Maes y Pandy) a gadael dwy ferch yn gyd-aeresau - (1) ELIZABETH (bu farw 17 Mai 1642), a briododdâ Syr JAMES PRYSE Gogerddan (bu yntau farw yn 1642), a (2) CATHERINE, a ddaeth yn wraig John Owen ap John ap Lewis ab Owen, Llwyn, Dolgellau. Canodd Siôn Cain gywydd i 'Syr Siams Prys marchog, o ynys y maengwyn,' yn 1633 (Peniarth MS 116); ceir hefyd gywydd gan Richard Phylip 'I Syr Siams Prys o ynis y maengwyn i ofyn kledde a dagar dros Sion Huwes o faes y pandy' (gweler yr erthygl ar 'Phylipiaid Ardudwy ' yn *Y Cymmrodor*, xlii). Bu Syr James yn siryf Meirionnydd yn 1606 a 1619.

Aer Elizabeth a Syr James Pryse oedd eu merch BRIDGET a briododdd (1) â ROBERT CORBET, trydydd mab Syr Vincent Corbet, Moreton Corbet, Sir Amwythig; a (2) â Syr Walter Lloyd, Llanfair Clydogau, Sir Aberteifi. Dilynwyd Bridget a Robert Corbet gan eu mab VINCENT CORBET (bu farw 1723), siryf Meirionnydd yn 1682. Priododdd ef ag Ann, ferch William Vaughan, Corsygedol a gadawodd bedair merch yn gyd-aeresau - (1) ANN, a briododdd ag ATHELSTAN OWEN, Rhiwsaeson, Sir Drefaldwyn - trwyddynt hwy y cariwyd llinach Ynysmaengwyn ymlaen; (2) Jane; (3) Elizabeth; a (4) Rachel. Ni bu i Corbet Owen a Richard Owen, meibion Ann ac Athelstan Owen, etifeddion, ond dygwyd y llinach ymlaen gan eu chwaer ANN OWEN (bu farw 1767) a'i gŵr, PRYSE MAURICE (1699 - 1799), Lloran Ucha, etc., a fabwysiadodd y cyfenw CORBET, megis y gwnaeth eraill a'i dilynodd - yr olaf oedd ATHELSTAN JOHN SODEN CORBET (ganwyd 1850), siryf Meirionnydd yn 1875.

Dywedir bod gan y VINCENT CORBET a fu farw yn 1723 fab, Thomas Vincent, gweler yr ysgrif ' Vincent.' Dylid archwilio'r hanes am ei ddietifeddu. Yr unig ' Thomas Vincent ' a restrir yn Foster *Alumni*, sydd a'i ddyddiadau yn cyfateb, yw Thomas Vincent, mab Thomas 'of Merioneth (town)' - hwyrach gwall am 'Merioneth (Towyn)'. Ymaelododd hwn yn S. Mary Hall, 16 Ebrill 1698 yn 19 oed, a graddiodd yn B.A. yn 1701. A disgrifir ef fel ' pauper puer '.

Prynwyd stad Ynysmaengwyn yn 1874 gan John Corbett, Impney, aelod seneddol dros Droitwich. Nid oedd, fodd bynnag, unrhyw berthynas rhwng y Corbett hwn a'r lleill. Am nodyn ar y tŷ gweler *Archæologia Cambrensis*, xcvii, 230.

Yr oedd cysylltiad rhwng Ynysmaengwyn â Dolau Gwyn, tŷ ar ochr y ffordd sydd yn arwain o Dywyn i Abergynolwyn. Adeiladwyd Dolau Gwyn cyn 1620 gan LEWIS GWYN (bu farw 1630), siryf Meirionnydd yn 1617. Ail fab oedd Lewis Gwyn, Dolau Gwyn, i John Wynn ap Humphrey, Ynysmaengwyn (uchod); yr oedd felly'n frawd i'r Humphrey Wynn y canodd Siôn Phylip gywydd iddo. Bu Lewis Gwyn yn briod ddwywaith - (1) â Jane, ferch Hugh Nanney, Nannau, a chael Gwen (isod) ac Elizabeth, a briododdEdward (?) Nanney, Nannau, a (2) ag Annes, ferch Hugh Gwyn ab Evan, Llwyn Griffri, Llanddwywe, a chael ohoni bedair merch - daeth un o'r rhain yn gyd-aeres maes o law.

Yr oedd Lewis Gwyn yn noddwr beirdd. Ysgrifennodd Richard Phylip ddau gywydd i ryw lestr diod ('Fiol frech ” - ' ffiol oddfyn') a oedd yn Nolau Gwyn, cywydd ' i ofyn milgi llwyd gan John Vaughan o Gaergai dros Lewis Gwyn o'r Dolegwyn '; marwnadodd Richard Phylip dros Lewis Gwyn a thros ei ferch Gwen, gwraig gyntaf Lewis Lloyd, Rhiwedog. Bu hefyd 'ymryson' ynghylch Dolau Gwyn rhwng Richard Phylip, Gruffydd Hafren, Ieuan Tew, a Siôn Phylip. Canodd Gruffydd Phylip, mab Siôn Phylip, farwnad GRUFFYDD NANNEY, Dolau Gwyn. Mab oedd ef i Hugh Nanney (1588 - 1647), Nannau. Bu'n siryf Meirionnydd yn 1642. Priododdd ef ag ANN GWYN, cyd-aeres Lewis Gwyn.

Y mae'r llythrennau a'r rhifau L.G.A.G. 1620 a G.N.A.N. 1656 i'w gweld eto yn Nolau Gwyn; cyfeirio y mae'r cyntaf at Lewis Gwyn a'i wraig Ann (Gwyn) a'r ail at Gruffydd Nanney ac Ann (Nanney).

Awduron

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd ychwaneger

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 237

E. Breese, *Kalendars of Gwynedd â€¦* (1873)

An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire. VI-County of Merioneth (1921), 169

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 1949, 25

Archifau LlGC: Peniarth MS 116: Barddoniaeth Siôn Cain

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms(Llandovery 1846)

Delweddau

LlGC: Anne Corbet (nee Vaughan), Wife of V.Cbt

LlGC: Anne Corbet, Eldest Daughter of V Corbet

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n

derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, W. Ll., & Jenkins, R. T., (1953). WYNN, PRYSE, a CORBET (TEULUOEDD), Ynysmaengwyn, a GWYN a NANNEY (TEULUOEDD), Dolau Gwyn, Sir Feirionnydd.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WYNN-PRY-1275

Copïo'r cliptrwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu